Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

**Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Gwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol, 30 Mehefin 2020**

**Cyfarfod rhithwir**

**Yn bresennol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Vicki | Roskams | Arweinydd Ymgysylltu | Cwmni Buddiannau Cymunedol Sefydliad Enbarr |
| Dawn | Dublin | Cyfarwyddwr | Unveiled |
| Michelle | Reid | Prif Weithredwr | Cartrefi Cymoedd Merthyr |
| David | Smith | Ysgrifennydd | Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru |
| Eva | Trier | Cyfarwyddwr | Eva Trier Consulting Ltd |
| Tim | Hartley | Cyfarwyddwr | Co-op News |
| Martin | Downes | Swyddog Entrepreneuriaeth Cymdeithasol | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Carly | McCreesh | Rheolwr Prosiect Busnes Cymdeithasol Cymru – Dechrau Newydd | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Claire | White | Swyddog Monitro a Gwerthuso | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Rhian | Stone | Rheolwr Gyfarwyddwr | Pobl |
| Michelle | Francis | Swyddog Datblygu Menter | Cyngor Sir Penfro |
| Karen | Wilkie | Dirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol | Y Blaid Gydweithredol |
| Marco | Gil-Cervantes | Prif Weithredwr | ProMo Cymru |
| David | Smith | Ysgrifennydd | Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru |
| Dan | McCallum | Cyfarwyddwr | Awel Aman Tawe/Egni Co-op |
| Ian | Thomas | Prif Swyddog Gweithredol | Trivallis |
| Sarah | Owens | Ymgynghorydd Busnes | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Adrian | Roper | Prif Swyddog Gweithredol | Cwmni Cydweithredol Cartrefi Cymru |
| Sue | Thomas | Wedi ymddeol | Trysorydd Cymdeithas Iechyd Sosialaidd Cymru |
| Jessica | Thomas | Cymeradwywr Adroddiadau | GLI Gaming |
| Alan | Brunt | Prif Weithredwr | Cartrefi Cymunedol Bron Afon |
| Barbara | Lloyd | Ysgrifennydd y Gangen | Plaid Cydweithredol De-ddwyrain Cymru |
| Anthony | Samuel | Uwch-ddarlithydd | Ysgol Fusnes Prifysgol Caerdydd |
| Chris | Cowcher | Pennaeth Busnes Cymunedol | Sefydliad Plunkett |
| Sara | Burch | Rheolwr | Gateway Credit Union Ltd |
| Christopher | Hall | Cynghorwr Cyfreithiol | GLITEM, rhan o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (Gwasanaeth Sifil) |
| Mike | Erskine | Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a Digwyddiadau | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Derek | Walker | Prif Weithredwr | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Dan | Roberts | Swyddog Polisi | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Glenn | Bowen | Cyfarwyddwr Menter | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Barbara | Lloyd | Cangen De-ddwyrain Cymru | Y Blaid Gydweithredol |
| Donna | Coyle | Cydweithredu i Ofalu | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Sarah | Evans | Cynghorydd Polisi ac Ymchwil Annibynnol | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Casey | Edwards | Cynghorydd Tai Cymunedol | Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Bebhinn | O'Loingsigh | Rheolwr Hyfforddi | Bisley |
| Mark | Hooper | Cydweithredwr | Banc Cambria |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Jack | Watkins | Swyddog Polisi | Y Sefydliad Materion Cymreig |
| Nisreen | Mansour | Swyddog Polisi | TUC Cymru |
| Paul | O'Hara | Ysgrifennydd | Drive, Cardiff Taxi Co-operative Limited |
| Sophia | Goard | Llysieuydd Meddygol dan Hyfforddiant | Betonica |

**Cyfraniadau gan y panelwyr**

- *Dr Anthony Samuel, Prifysgol Caerdydd*
  Rhoddodd Dr Samuel gyd-destun i effaith argyfwng Covid-19 ar fentrau cymdeithasol ar lawr gwlad. Dywedodd, er gwaethaf yr amseroedd heriol, fod lle i fod yn obeithiol – mewn un arolwg barn, dim ond 6 y cant o'r cyhoedd ym Mhrydain a nododd eu bod am i'r economi ddychwelyd i'r un sefyllfa ag yr oedd ynddi cyn yr argyfwng. Awgrymodd, fodd bynnag, er y bu newid yn ein barn am yr economi, nad oes unrhyw sicrwydd y bydd yn arwain at newid parhaol. Cyfeiriodd Dr Samuel at waith Naomi Klein a'r syniad o gyfalafiaeth drychineb (*disaster capitalism*), a sut y bydd y disgwrs ynghylch ein heconomi yn parhau i gael ei dominyddu gan gorfforaethau mawr sy'n ceisio elwa ar yr oes gythryblus yr ydym yn byw ynddi. Dywedodd mai mater i ni yw sicrhau bod naratif newid economaidd yn gallu parhau.

  Nododd Dr Samuel ddiwydiannau penodol a allai elwa'n fawr o fentrau cymdeithasol a gwerthoedd cydweithredol. Un enghraifft oedd cartrefi gofal – maen nhw wedi bod yn ganolbwynt i'r argyfwng, a hyd yn oed cyn i'r argyfwng ddechrau roedd amheuaeth ynghylch pa mor gynaliadwy yw eu model economaidd. Erbyn hyn, gellir ystyried bod 50 y cant o gartrefi gofal yng Nghymru mewn cyflwr ariannol bregus. Ledled y DU, mae 120 o gartrefi gofal yn cael eu rheoli fel mentrau cymdeithasol, ac awgrymodd Dr Samuel y gall y rhain fod yn lasbrint ac yn enghreifftiau o arfer gorau ar gyfer modelau o gartrefi gofal sy'n seiliedig ar lesiant a gwerth cymdeithasol, nid elw, ar gyfer y preswylwyr a'r gweithwyr maen nhw'n eu cyflogi a'r cadwyni cyflenwi sy'n gweithio gyda nhw.

- *Nisreen Mansour, Cyngres Undebau Llafur Cymru (TUC)*
  Trafododd Nisreen y modd y mae argyfwng Covid-19 wedi tynnu sylw at anghydraddoldebau sy'n bodoli'n barod – gyda hen broblemau o ran anghydraddoldebau rhanbarthol a'r bylchau cyflog yn ymwneud â rhywedd a chymunedau BAME yn ymddangos unwaith eto yn ystod effaith argyfwng Covid-19 a'r ymateb iddo. Dywedodd fod undebau llafur wedi sôn ers amser maith bod yn rhaid i ni fynd i'r afael ag achos sylfaenol marchnadoedd llafur annheg, sy'n deillio o'r berthynas anghyfartal rhwng y gweithiwr a'r cyflogwr. Pwysleisiodd na allwn ddibynnu ar weithredoedd unigolion i ddatrys y problemau hyn, ac mai undeboli a bargeinio ar y cyd yw'r ateb – ond awgrymodd na fyddwn yn gweld twf yn y meysydd pwysig hyn heb ymyrraeth polisi.

  Tynnodd Nisreen sylw at ddau ddiwydiant lle gallai codi ein lleisiau gyda'n gilydd ac undeboli wneud gwahaniaeth mawr – lletygarwch a thwristiaeth. Dywedodd fod y rhain yn ddwy elfen hanfodol o economi Cymru, ond bod gan y 100,000 o weithwyr yn y diwydiannau hyn yng Nghymru lefelau undeboli isel a llais cyfunol gwan ar hyn o bryd, ac mae gwaith ansicr fel contractau dim oriau a chyflogau isel yn gyffredin.

Dywedodd Nisreen fod cwmnïau yn y diwydiannau hyn wedi dweud nad yw'r modelau busnes sy'n dominyddu'r diwydiannau hyn ar hyn o bryd yn caniatáu gwell amodau i weithwyr. Felly, mae'r TUC o'r farn na ddylai'r Llywodraeth barhau i ariannu modelau busnes nad ydynt yn caniatáu ar gyfer gwaith teg, ac yn hytrach, dylent droi at fodelau amgen fel cwmnïau cydweithredol undebol.

- *Sara Burch, Undeb Credyd Gateway*
  Trafododd Sara brofiadau undebau credyd ledled Cymru a'u hymateb i'r argyfwng, ac yn benodol ei hundeb credyd ei hun, sef Gateway. Dywedodd y gwnaeth bopeth newid pan ddechreuodd y cyfyngiadau symud, ac y bu'n rhaid iddynt drosglwyddo'n sydyn i wasanaeth ar-lein. Trafododd Sara'r "gwahaniaeth undeb credyd", wrth iddynt geisio gwasanaethu eu haelodau; rhyddhau cynilion lle bo angen, cadw golwg ar aelodau oedrannus, a chynyddu lefelau cynilion.
  Trafododd sut roeddent wedi agor cyfrifon ar gyfer grwpiau cymunedol, a gweithio gydag aelodau allweddol o'r economi sylfaenol. Dywedodd y bydd heriau hen a newydd yn y dyfodol, ond mae undebau credyd ledled Cymru eisiau gweithio gyda'i gilydd, cyfnewid arfer gorau a chyfuno'u hadnoddau, i gamu ymlaen a pharhau i gefnogi cymunedau ledled Cymru yn ystod y cyfnod hwn.

- *Paul O'Hara, Drive – Tacsis Caerdydd*
  Soniodd Paul am brofiad ei fenter gymdeithasol yn camu ymlaen ac yn diwallu anghenion eu gweithwyr a'r gymuned yn ystod argyfwng Covid-19. Dywedodd eu bod wedi colli 95% o'u gwaith a archebwyd ymlaen llaw pan ddechreuodd yr argyfwng, ond penderfynon nhw fel grŵp ddarparu teithiau siopa am ddim i'r henoed, defnyddio cynilion y grŵp i dalu'r gyrwyr, a rhoi gostyngiad o 25 y cant i weithwyr allweddol, gan gynnwys y rheini y tu allan i'r sectorau iechyd a gofal sy'n gweithio mewn ffatrïoedd a diwydiannau a oedd yn ein cadw i fynd yn ystod y cyfyngiadau symud.

  Fe wnaethant ddarganfod eu bod wedi denu cwsmeriaid newydd yn ystod y cyfnod hwn, a nawr, gyda'r gymdeithas a'r economi yn dechrau ailagor, roedd hen gwsmeriaid wedi dechrau dychwelyd. Soniodd Paul am ei obaith na fydd y cynnydd mewn ysbryd cymunedol a welsom yn ystod y cyfnod hwn yn mynd yn angof ac y gellir manteisio arno er budd cymdeithasol ac economaidd.

**Cwestiynau a chrynodeb o'r drafodaeth**

- Trafododd Derek Walker, Prif Swyddog Gweithredol Canolfan Cydweithredol Cymru, y cyfleoedd y gall argyfwng Covid-19 eu cyflwyno, ond soniodd bod perygl yn byddwn yn llithro yn ôl i'r hen drefn. Dywedodd y gall y mudiad sy'n tyfu ddylanwadu ar yr hyn a ddaw nesaf i adeiladu gwlad well. Soniodd am y nifer cynyddol o grwpiau cymorth cydfuddiannol ledled Cymru, a gofynnodd sut y gallwn eu cefnogi ac adeiladu ar y datblygiadau hyn. Cyfeiriodd at adroddiad "Owning the Future" y Blaid Gydweithredol a'r weledigaeth a'r cynllun gweithredu ar gyfer y sector menter gymdeithasol a gynhyrchwyd gan y Tasglu Mentrau Cymdeithasol. Pwysleisiodd fod angen newid systemig arnom, yn hytrach na phrosiectau newydd, gyda ffordd newydd o weld yr economi ac o wneud penderfyniadau

Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

economaidd.

- Trafododd y rhai oedd yn bresennol y ffordd orau o hyrwyddo mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol presennol. Roedd rôl sefydliadau addysg wrth ymgysylltu â phobl ifanc yn rhan allweddol o hyn. Trafododd y grŵp sut y mae'n rhaid i addysg busnes/economeg/entrepreneuriaeth gynnwys mentrau cymdeithasol, ac y dylai ddathlu entrepreneuriaid cymdeithasol lleol nid biliwnyddion enwog pell yn unig. Trafododd y grŵp yr arwyddion cadarnhaol, gyda phwysigrwydd ystyriaethau moesegol sy’n seiliedig ar werthoedd i bobl ifanc. Trafododd y grŵp arwyddion cadarnhaol yr “Hack of Kindness” yn Wrecsam a'r sesiynau Hackathon ledled Cymru.

- Trafododd y grŵp bwysigrwydd cysylltu'r mudiad cydweithredol ag ymgyrchoedd perthnasol eraill ar amgylcheddaeth, tlodi a lleoliaeth. Cytunwyd bod llawer o orgyffwrdd yn barod, a bod datblygu a meithrin perthnasoedd cadarnhaol yn bwysig iawn. Roedd ymgysylltiad y cyhoedd â'r economi sylfaenol yn hollbwysig, gyda chefnogaeth ar gyfer cynlluniau prynu’n lleol. Pwysleisiodd y grŵp na allwn dybio y bydd hyn yn parhau am byth, a rhaid i ni weithio i wneud defnydd moesegol yn haws.

**DIWEDD**